

# Egwyddor 1.3: Nodi'r mesurau rheoli ar gyfer pob perygl

## Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae mesurau rheoli yn weithredoedd a/neu'n weithgareddau a gymerir i atal, dileu neu leihau perygl y byddwch chi wedi'i nodi.

## Sut y cyflawnir y cam hwn?

Dim ond peryglon sylweddol (y rhai sy'n uwch na'r sgôr arwyddocaol yr ydych chi wedi'i phennu ymlaen llaw) y byddwch yn eu symud ymlaen i'r cam hwn.

Ar gyfer pob perygl sylweddol, cofnodwch pa gamau a/neu weithgareddau y mae gofyn eu cymryd i atal, dileu neu leihau'r perygl i lefel dderbyniol.

Mae mesurau rheoli yn aml yn cael eu drysu â monitro. Cynhelir gwaith monitro i sicrhau bod y mesur rheoli a roddwyd ar waith i reoli'r perygl yn gweithio. Dyma'r diffiniadau o "fesur rheoli" a "monitro" i'ch helpu i ddeall y gwahaniaeth:

### Mesur rheoli

Unrhyw gamau a/neu weithgaredd y gellir eu defnyddio i atal neu ddileu perygl diogelwch bwyd neu ei leihau i lefel dderbyniol.

### Monitro

Cynllunio a chynnal arsylwadau (*observations*) neu fesuriadau i asesu a yw Pwynt Rheoli Critigol (CCP) dan reolaeth.

Dylech gofio:

- Efallai y bydd angen mwy nag un mesur rheoli i reoli perygl penodol yn effeithiol. Er enghraifft, gallai fod angen defnyddio system canfod metel, cynnal a chadw'r system ganfod, a hyfforddiant ar ei defnyddio i osgoi'r perygl o gael darnau metel mewn bwyd.
- Gall un mesur rheoli reoli mwy nag un perygl. Er enghraifft, gall tymheredd olew ac amser ffrio fod yn fesur rheoli effeithiol ar gyfer lleihau nifer y Salmonela a Campylobacter mewn bwyd wedi'i ffrio.
- Nid yw mesurau rheoli bob amser yn cael eu cynnal ar yr un Cam Proses ag y mae'r perygl yn codi. Er enghraifft, gallai perygl yn ystod Cam 1 y Broses fod yn 'bresenoldeb metel mewn deunydd crai gan y cyflenwr'; gall y perygl hwn fod â nifer o fesurau rheoli gan gynnwys defnyddio cyflenwyr sydd wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw yn unig, neu gyflenwi i fanyleb cytunedig. Bydd y mesurau rheoli hyn yn ymddangos yn ystod Cam 1 y Broses. Fodd bynnag, mae mesur rheoli yng Ngham 15 y Broses, sef 'system effeithiol i ganfod a gwrthod metel' hefyd yn fesur rheoli ar gyfer y perygl hwn.

**Tabl i ddangos enghreifftiau o berygl a nodwyd ar gam proses, beth sydd wedi'i achosi, y mesurau rheoli ar gyfer y perygl a sut mae'r rhain yn cael eu monitro**

<b>Rhif y cam</b>	<b>Disgrifiad o'r cam yn y broses</b>	<b>Perygl ac achos posibl</b>	<b>Mesur rheoli</b>	<b>Monitro</b>
10	Ffrio dwfn	Bacteria yn goroesi gan nad yw bwyd wedi'i goginio ddigon: tymheredd olew isel neu amser coginio rhy fyr	Tymheredd olew ac amser ffrio wedi'i nodi	Gwirio bod tymheredd olew yn cael ei fesur yn barhaus i'w gymryd ar y cynnyrch cyntaf ar ddechrau'r sifft, bob 30 munud wedi hynny ac ar gynnyrch olaf y shifft. Amserydd lle gellir gosod larwm wrth roi pob swp yn y peiriant ffrio
15	Canfod metel	Cyflwyno metel o beiriannau sydd wedi torri a ddefnyddir mewn camau proses eraill	System effeithiol i ganfod a gwrthod metel	Gwirio'r peiriant canfod metel ar ddechrau rhediad, diwedd rhediad a phob 20 munud. Cynhelir y gwiriadau gan ddefnyddio Fferrus 1.5mm, Anfferrus 2.0mm a Dur Di-staen 3.0mm, a chaiff pob un ohonynt eu canfod a'u gwrthod gan y peiriant canfod metel
15	Canfod metel	Cyflwyno metel o beiriannau sydd wedi torri a ddefnyddir mewn camau proses eraill	Gofyniad hanfodol mewn gwaith cynnal a chadw ataliol wedi'i gynllunio	Bydd gwaith cynnal a chadw arferol yn cael ei wneud fel yr amlinellir yn y weithdrefn cynnal a chadw ataliol wedi'i gynllunio PPM01

**Tabl i ddangos enghreifftiau o berygl a nodwyd ar gam proses, beth sydd wedi'i achosi, y mesurau rheoli ar gyfer y perygl a sut mae'r rhain yn cael eu monitro**

<b>Rhif y cam</b>	<b>Disgrifiad o'r cam yn y broses</b>	<b>Perygl ac achos posibl</b>	<b>Mesur rheoli</b>	<b>Monitro</b>
15	Canfod metel	Cyflwyno metel o beiriannau sydd wedi torri a ddefnyddir mewn camau proses eraill	Gofyniad Hyfforddi hanfodol	Rhaid hyfforddi pob aelod o staff i weithredu a gwirio'r peiriant canfod metel

**Source URL:**

<https://myhaccp.food.gov.uk/cy/cymorth/canllawiau/egwyddor-13-nodi%E2%80%99r-mesurau-rheoli-ar-gyfer-pob-perygl>